**Jeremy Miles AS/MS**
**Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**
**Counsel General and Minister for European Transition**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/CG/1756/20

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

4 Mehefin 2020

Annwyl Mick,

Rwyf yn falch iawn bod cylch gwaith eich Pwyllgor bellach wedi'i ehangu i gynnwys cyfrifoldeb dros fater pwysig cyfiawnder ac rwyf yn cymeradwyo'r Pwyllgor am fynd ati i weithio yn y maes mor gyflym drwy gynnal yr ymchwiliad "Gwneud i Gyfiawnder Weithio yng Nghymru".

Mae'r Pwyllgor wedi nodi telerau eang iawn ar gyfer yr ymchwiliad hwn. Ymdriniwyd â llawer o'r tir hwn gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, o dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Thomas o Gwmgïedd a hyderaf nad yw'r Pwyllgor yn ceisio ailadrodd gwaith y Comisiwn, sy'n awdurdodol ac yn eang ei gwmpas.

Roedd casgliadau'r Comisiwn ar Gyfiawnder yn glir ac yn ddiamwys, sef bod pobl Cymru yn cael eu siomi gan y system gyfiawnder yn ei chyflwr presennol. Safbwynt hirsefydlog Llywodraeth Cymru yw y dylai pwerau'r sefydliadau datganoledig fod yn seiliedig ar set gydlynol o gyfrifoldebau. Dylai cyfiawnder fod wrth graidd Llywodraeth a bod yn gyson â pholisïau sydd eisoes wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r Llywodraeth yn cytuno â barn y Comisiwn bod angen diwygio'r system gyfiawnder yn sylweddol.

Byddwch yn gwybod bod y Prif Weinidog wedi symud yn gyflym i ymateb i argymhelliad y Comisiwn ar gyfer arweinyddiaeth glir ac atebol ym maes cyfiawnder yn Llywodraeth Cymru ac fe sefydlodd is-bwyllgor o'r Cabinet i ddarparu trosolwg Gweinidogol ar faterion cyfiawnder ar draws y Llywodraeth. Er yr effeithir yn anochel ar y broses o ddiwygio'r system gyfiawnder wrth inni ymateb i bandemig y coronafeirws, mae mynd ar drywydd amcanion adroddiad y Comisiwn, serch hynny, yn parhau'n ymrwymiad clir gan y Llywodraeth. At hynny, mae'r pandemig wedi rhoi mwy o amlygrwydd i ddatganoli ac yn benodol wedi tanlinellu'r rhyng-ddibyniaethau rhwng cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a'r rhannau hynny o'r system gyfiawnder sy'n parhau i fod wedi'u cadw yn ôl.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn y cyfnod hwn o gasglu tystiolaeth ar gyfer eich ymchwiliad, hoffwn dynnu sylw'r pwyllgor at y dystiolaeth a gyhoeddwyd isod:

1. Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru.

   Cyflwynodd Llywodraeth Cymru gyfres o dystiolaeth i'r Comisiwn ar gyfiawnder yng Nghymru a oedd yn nodi safbwynt y Llywodraeth mewn perthynas â chyfiawnder yng Nghymru yn fanwl.

   Cyhoeddwyd ein tystiolaeth mewn cyfres o ddogfennau yn ymdrin â phynciau penodol ac maent ar gael ar-lein. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ddarparu dolenni i Glerc y Pwyllgor.

2. Datganiad Llafar y Prif Weinidog ar 29 Tachwedd 2019 a Chofnod cysylltiedig y Trafodion.

3. Cofnod y Trafodion ar gyfer y ddadl o dan arweiniad y Llywodraeth a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2020

Byddwn wrth gwrs yn hapus i ymgysylltu â'r Pwyllgor ymhellach wrth i chi ymgymryd â rhan 2 o'ch ymchwiliad.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition